


# Canllawiau i Arddangoswyr

## 2026-27

01492 879771 venuecymru.co.uk
businessevents@venuecymru.co.uk

venue cymru
LLANDUDNO

# Croeso i Venue Cymru

Croeso i'ch Llawlyfr Arddangoswyr Venue Cymru. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei angen arnoch i sicrhau cyfranogiad esmwyth yn y digwyddiad hwn.

Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, cwblhewch ffurflenni arddangoswyr eich cwmni.

Wrth gwrs, nid yw'r llawlyfr hwn i fod i ddisodli gwasanaeth personol y tîm gweithrediadau, ac os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r tîm Digwyddiadau Busnes:

businessevents@venuecymru.co.uk

01492 879771

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Venue Cymru.

This document is also available in English.



## Arddangos yn Venue Cymru

Mae'r amodau canlynol yn ffurfio rhan o amodau contract yr Arddangoswyr gyda Threfnydd yr Arddangosfa. Mae rheolwr y lleoliad yn cadw'r hawl i orfodi unrhyw un o'r amodau hyn a gall fethiant yr arddangoswr i gydymffurfio arwain at eu gwahardd o'r eiddo.

### Yswiriant ac Atebolrwydd

**Eiddo Personol**

- Mae'r lleoliad wedi'i osod gyda larymau yn erbyn tresbaswyr a thra gwneir pob ymdrech i sicrhau diogelwch y stondinau ac arddangosfeydd, ni all y lleoliad fod yn gyfrifol am golled neu ddifrod i eiddo personol arddangoswyr pan fydd y stondinau wedi'u gadael.

**Atebolrwydd Cyhoeddus**

- Mae'n ofynnol i arddangoswyr gaffael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn erbyn damwain neu anaf a achosir i fynychwyr o ganlyniad i'w stondin, arddangosfeydd neu weithredoedd.

### Iechyd a Diogelwch

Mae Venue Cymru wedi ymrwymo i ddarparu, cynnal a hybu'r safonau uchaf o iechyd, diogelwch a lles ymhob digwyddiad, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Disgwylir i holl arddangoswyr sicrhau eu bod yn darparu system weithio a lleoliad diogel.Mae rheoli diogelwch yn llwyddiannus yn gofyn am ymrwymiad, cyfranogiad a chydweithrediad gyda phawb sydd ar y safle.Mae gan arddangoswyr ddyletswydd dan Reoliadau Iechyd a Diogelwch cyfredol y dylent gydymffurfio ag o yn ôl y gyfraith.

**Fel Arddangoswr yn Venue Cymru, rhaid i chi:**

- Enwebu cynrychiolydd iechyd a diogelwch ar gyfer eich stondin, sy'n ymwybodol o bolisi iechyd a diogelwch eich cwmni.
- Bod a chopi o'ch polisi iechyd a diogelwch ar gael ar gyfer ei archwilio ar y safle, ar gais.
- Sicrhau eich bod chi, ac unrhyw un sy'n gofalu am eich stondin, yn deall y gweithdrefnau tân a gadael, a lleoliad yr holl allanfeydd tân.
- Sicrhau bod holl sbwriel a phecynnu o'ch stondin yn cael eu clirio o'r safle. Ni ddylid ei storio ar neu du ôl i'ch stondin.
- Sicrhau bod mesurau'n cael eu cymryd i leihau effaith eich gweithredoedd ar yr amgylchedd.
- Sicrhau bod yr holl wastraff peryglus yn cael ei waredu'n ddiogel.
- Sicrhau bod gennych yswiriant digonol ar gyfer yr arddangosfa.
- Trin ceblau trydan fel eu bod yn fyw.
- Bod yn ymwybodol o eraill sy'n gweithio o'ch amgylch ac adroddwch am unrhyw bryderon sydd gennych am arferion gweithio anniogel neu dorri gweithdrefnau iechyd a diogelwch a amlinellir.
- Bod ag asesiadau risg ar waith.

**Fel Arddangoswr yn Venue Cymru, ni ddylech:**

- Ddefnyddio deunyddiau fflamadwy fel rhan o'ch arddangosfa.
- Gorlwytho neu beidio â diogelu eich arddangosfa.
- Dod â phlant i'r neuadd yn arbennig yn ystod gosod a chlirio.
- Gorlwytho troliau.
- Rhwystro'r llwybrau gyda'ch sbwriel neu offer.

## Coginio ar y Stondin

Os ydych yn bwriadu paratoi a/neu goginio ar eich stondin, mae nifer o fesurau sydd angen eu cymryd er mwyn bodloni safonau yn unol â'r gyfraith.

Caniateir coginio ar y stondin gyda chaniatâd Venue Cymru yn unig. Rhaid cyflwyno asesiad risg ar gyfer hyn, yn ogystal ag unrhyw waith papur perthnasol eraill.

### Samplu

Caniateir cynnig samplau o fwyd a diod yn Venue Cymru, os oes gennych dystysgrif hylendid bwyd sylfaenol a ddylai fod ar gael i'w archwilio.Rhaid i arddangoswyr sy'n rhan o goginio a pharatoi bwyd gydymffurfio â rheolau a rheoliadau fel y nodir yn yr adran Iechyd a Diogelwch.

## Deunyddiau Stondin/Arddangosfa

### Dosbarthu a Chasglu

- Gellir derbyn danfoniadau rhwng 8am a 5.30pm yn y dderbynfa gan ddefnyddio'r bae llwytho 20 munud ar flaen y lleoliad.
- Dylai unrhyw becyn sy'n cael ei anfon i'r lleoliad gael ei farcio'n glir gydag enw'r digwyddiad ac enw/rhif stondin.
- Ni dderbynnir deunyddiau stondin a/neu arddangosfa a anfonir i'r lleoliad gan wasanaeth cludo cyn y diwrnod gosod arddangosfa, oni bai bod hyn wedi cael ei drefnu ymlaen llaw gyda staff y lleoliad.
- Dylai'r arddangosfa drefnu unrhyw ddanfoniadau dychwelyd. Sicrhewch fod y rhain wedi cael eu marcio'n glir a bod y cwmni'n gwybod i'w gasglu o'r dderbynfa trwy'r brif fynedfa. Sicrhewch fod bocsys sydd wedi'u pacio a'u selio yn cael eu labelu'n unigol gydag enw a lleoliad a hefyd y cwmni cludo. Gall ein tîm derbynfa gyflenwi ffurflenni casglu i chi ar y diwrnod.
- Ni all y lleoliad dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu ddifrod i becynnau na dderbynnir gan y deiliaid stondin eu hunain. Bydd unrhyw becyn a ddanfonir cyn i'r deiliad stondin gyrraedd, yn cael ei dderbyn a'i lofnodi heb ei wirio.

### Strwythurau

- Ni ddylid gosod stondin tu hwnt i 3.5 metr oni bai bod cynlluniau llawn o'r stondin wedi cael eu cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth dim llai na 6 wythnos lawn cyn y digwyddiad, a bod cymeradwyaeth wedi cael ei dderbyn.

## Dodrefn y Lleoliad

- Bydd amrywiaeth cyfyngedig o ddodrefn stondin ar gael i'w llogi ar gyfer hyd yr arddangosfa (yn destun argaeledd) a dylid eu harchebu trwy gysylltu gyda'ch cyswllt yn y gynhadledd.
- Nid yw'r dodrefn ac offer a leolir yng nghynteddau'r lleoliad ar gael ar gyfer eu defnyddio ar y stondinau a bydd defnydd anawdurdodedig o'r dodrefn hyn yn arwain at staff y lleoliad yn tynnu'r dodrefn o'r stondinau.

## Cyfarpar Trydanol

- Rhaid i holl gyfarpar trydanol ar gyfer eu defnyddio yn y lleoliad fod â thystysgrif Profi Teclynnau Symudol cyfredol. Mae rheolwyr y lleoliad yn cadw'r hawl i beidio â chyflenwi pŵer i arddangoswr sy'n methu â chydymffurfio a/neu'n mynnu ar brofi'r cyfarpar dan sylw (yn destun tâl).
- Dylai unrhyw osodiadau pŵer, golau neu drydanol eraill gael eu gosod gan unigolyn cymwys.Mae gosodiadau a chyfarpar trydanol yn destun archwiliad ar unrhyw adeg gan drydanwr penodedig y lleoliad. Codir tâl ar yr arddangoswr am unrhyw waith sydd ei angen i ddiogelu neu gywiro gosodiadau o'r fath. Mae angen RAMS llawn gan y gosodwr cyn y digwyddiad.
- Ni fydd y pŵer yn cael ei roi ymlaen ar gyfer y stondinau yn ystod gosod, hyd nes ystyrir ei fod yn ddiogel gwneud hynny. Mae'r pŵer i'r stondinau'n cael ei roi ymlaen 60 munud cyn i'r arddangosfa agor a 30 munud ar ôl cau bob diwrnod. Cyfrifoldeb yr arddangoswyr yw hysbysu ac archebu cyflenwad pŵer parhaus ymlaen llaw os oes angen.
- Yn dibynnu ar y digwyddiad, weithiau mae'n bosibl archebu a thalu am bŵer i'r stondin trwy'r lleoliad. Gwiriwch gyda threfnydd y digwyddiad am fwy o wybodaeth.

## Deunyddiau Fflamadwy

- Rhaid i'r holl ddeunyddiau a ddefnyddir ar y stondinau wrthsefyll tân i gydymffurfio â gofynion y Swyddog Tân. Rhaid i lenni fod mewn deunydd sy'n gwrthsefyll tân sy'n cydymffurfio â BS5876 (rhan 2)

## Llwybrau a Thramwyfeydd

- Rhaid i holl lwybrau a thramwyfeydd gael eu cadw'n gwbl glir rhag dodrefn, deunyddiau stondin a rhwystrau eraill ar gyfer hyd yr arddangosfa. Gall methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn arwain at y lleoliad yn clirio'r rhwystr. Mae rheolwyr y lleoliad yn cadw'r hawl i godi tâl ar arddangoswr ar gyfer yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gwneud hyn.

## Difrod

- Bydd unrhyw ddifrod a achosir i'r adeiladwaith neu'r dodrefn drwy gamddefnyddio cyfleusterau'n golygu codi tâl ar yr arddangoswr.

## Gwybodaeth ymarferol

- Sylwch y dylid cael caniatâd ymlaen llaw cyn gadael unrhyw eitemau diangen a/neu sbwriel yn y lleoliad. Gall methu â chael caniatâd arwain at ddirwy.
- Unwaith y cytunir hyn gyda'r lleoliad, sicrhewch fod yr holl sbwriel yn yr ardal ddynodedig, gan ei rannu i gydymffurfio â'n polisi amgylcheddol.

## Gofynion Cysylltedd

- Rhaid i holl wasanaethau Wi-Fi, band eang a ffrydio gael ei archebu trwy'r lleoliad. Bydd unrhyw beirianwyr sy'n cyrraedd i gysylltu cysylltiadau ac ati na chafodd eu harchebu gan reolwyr y lleoliad, yn cael eu gwrthod o'r eiddo.

## Ymddygiad

- Gwaherddir arddangoswyr rhag gwneud unrhyw weithgaredd sy'n achosi niwsans neu dramgwydd i ddefnyddwyr eraill yr eiddo. Mae hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) defnydd uchel iawn o gerddoriaeth, ymddygiad gwahaniaethol neu fygythiol. Gall methu â chydymffurfio arwain at wahardd yr arddangoswr o'r eiddo.
- Sicrhewch fod eich stondin bob amser â staff a bod yr holl arddangosfeydd yn parhau i gael eu harddangos tra bod y digwyddiad ar agor.
- Bydd angen i'r holl arddangoswyr wisgo bathodyn adnabod bob amser.
- Rhaid i holl fusnes, gan gynnwys rhannu llenyddiaeth a deunyddiau hyrwyddo gael ei wneud o'ch stondin. Gwaherddir arddangoswyr neu eu cynrychiolwyr rhag rhannu pamffledi, samplau ac ati, yn unrhyw le arall yn yr eiddo oni bai bod cytundeb ymlaen llaw gyda'r lleoliad.
- Bydd holl arddangosfeydd, erthyglau ac eiddo eraill yn yr arddangosfa yn cael eu gadael ar risg yr unigolyn. Ni fydd Venue Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod neu ddinistr i unrhyw eitemau.
- Gwaherddir storio casys pacio gwag unrhyw le o amgylch y stondin.
- Ni chaniateir i arddangoswyr atodi unrhyw beth i waliau neu doeau'r adeilad heb ganiatâd ymlaen llaw gan y rheolwyr.

## Cerddoriaeth/Adloniant

Os ydych yn bwriadu chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio ymlaen llaw ar eich stondin, rhaid cael trwydded Cymdeithas Hawliau Perfformio, hyd yn oed os oes gennych drwydded teledu; trwydded adloniant yr Awdurdod Lleol neu drwydded Perfformiad Fideo Cyf. Os nad oed gennych y drwydded, gellir ei drefnu trwy'r lleoliad am gost fechan.Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â threfnwr y digwyddiad.

Os ydych yn bwriadu cael cerddoriaeth fyw ar eich stondin, byddwch angen trwydded Cymdeithas Hawliau Perfformio yn unig.

Cymdeithas Hawliau Perfformio: communications@prsformusic.com

Sicrhewch fod cerddoriaeth a gohebiaeth ar gyfer arddangosiadau, fideos, cyflwyniadau ac ati, yn cael eu cadw ar lefel na fydd yn tarfu ar stondinau gerllaw.

## Llwytho a Dadlwytho

**Yr Arena (Llawr Gwaelod)**
Mae'r mynediad o'r iard gwasanaeth yng nghefn yr adeilad, trwy fynedfa llwytho lefel uchel.

**Dimensiynau Llwytho Arena**

**Bae Llwytho (gan gynnwys drysau mynediad rholer):**
Cliriad y fynedfa yw:
Uchder: oddeutu 4.1 metr
Lled: oddeutu 3.8 metr

**Drysau'r Arena:** Drysau Allanfa Dân (ger y bae llwytho): 1.6m o led x 2m o uchder
**Neuadd yr Arena - Uchder y to:** 7.8m

**Y Neuadd (Llawr 1af)**
Mae mynediad o'r iard gwasanaeth yng nghefn yr adeilad, trwy'r lifft nwyddau neu'r grisiau.

Mae'r lifft yn cario uchafswm llwyth o 2500kg a'i faint yw: Uchder: 250cm / Dyfnder: 280cm / Agoriad: 150cm

**Ystafell Orme (Llawr Gwaelod)**
Mynediad ar ramp i lawr o'r brif fynedfa wrth y promenâd, neu dwnnel mynediad o'r maes parcio yn y cefn ac i lawr y grisiau o'r allanfeydd tân.

## Trefniadau Gosod

- Wrth gyrraedd dylai deiliaid stondin gofrestru gyda threfnydd y digwyddiad a chael bathodyn adnabod.
- Bydd perchnogion cerbydau sydd angen dadlwytho yn yr iard gwasanaeth yn y cefn, yn derbyn amser ar gyfer y slot llwytho nesaf sydd ar gael.
- Rhaid i gerbydau gael eu symud o'r iard gwasanaeth unwaith iddynt orffen dadlwytho a chyn i'r cyfyngiad amser ddod i ben ar eu hamser llwytho.
- Bydd unrhyw gerbydau sy'n cael eu gadael yn yr iard gwasanaeth tu hwnt i'r amser llwytho dynodedig yn destun ffi rhyddhau o £50.00.

## Trefniadau Tynnu i Lawr

- Bydd trefnydd y digwyddiad yn dynodi pan fyddent yn hapus i bobl ddechrau tynnu eu stondinau i lawr, fel arfer ar ôl cau'r digwyddiad.
- Ni all gerbydau gael mynediad at yr iard gwasanaeth hyd nes bydd caniatâd gan y marsial rheoli traffig.
- Bydd Rheolwr y Neuadd ond yn rhoi caniatâd i ddod â cherbydau i'r iard ar ôl cadarnhau bod stondinau wedi pacio ac yn barod i lwytho allan.
- Nid oes gan y lleoliad hawl tramwy ar draws maes parcio'r clwb hwylio i ochr ddwyreiniol y lleoliad. Felly nid yw'n bosibl defnyddio unrhyw un o'r drysau tân er mwyn llwytho allan.

## Parcio

- Mae parcio ar gael ym maes parcio yng nghefn yr adeilad (Talu ac Arddangos), ar y promenâd (Talu ac Arddangos) ac ar y stryd. Amser cyfyngedig yn unig yn y pwyntiau llwytho/dadlwytho.

## Bwyd a Diod

Rhaid cael caniatâd gan y lleoliad cyn y digwyddiad os yw unrhyw berson yn bwriadu gweini bwyd wedi'u paratoi ymlaen llaw, diodydd neu ddiodydd alcoholig.

Mae arlwyo ar gael yn Venue Cymru yn y Bar Caffi a Bwyty ar y safle.

**Bar a Chaffi Catlin**
Mae Bar a Chaffi Catlin ar agor drwy'r dydd i gynrychiolwyr cynadleddau, ymwelwyr y theatr ac aelodau'r cyhoedd. Mae'n far gyda thrwydded lawn, sy'n gweini prydau ysgafn, cacennau, a diodydd poeth ac oer mewn awyrgylch hamddenol.

Lleolir y Bar a Chaffi wrth y Swyddfa Docynnau, ger y fynedfa o faes parcio Venue Cymru Yr oriau agor yw 10am i 4pm.

**Bwyty Y Review**
Mae bwyty Y Review, sydd wedi'i leoli uwchben y bar a chaffi, yn cynnig golygfeydd panoramig hyfryd ar draws bae Llandudno. Mae'r bwyty, sydd â thrwydded lawn, yn cynnig bwydlen amrywiol a dewis o winoedd cain. Cynghorir chwi i archebu lle ymlaen llaw. Sylwch fod y bwyty ond ar agor cyn sioe.

## Gwefru Cerbydau Trydan yn Venue Cymru

Mae dau bwynt gwefru cerbydau trydan ym maes parcio Venue Cymru.
Mae'r pwyntiau gwefru yn fath 22Kw AC. Pennir pŵer y gwefru gan y gwefrwr sydd yn eich cerbyd. Bydd arnoch angen eich cebl gwefru eich hun â chysylltwr 'Math 2'.

Dangosir y prisiau gwefru yn yr Ap. Pan fyddwch wedi gwefru eich cerbyd, symudwch y cerbyd i'r mannau parcio safonol a Thalu ac Arddangos.


## Llety

Gyda mwy na 8000 o welyau a 250 o westai, tai gwyliau a gwely a brecwast o fewn y dref, gobeithiwn y bydd bob amser yn hawdd dod o hyd i le i aros yn Llandudno.

Mae'r ystod eang o ddewisiadau a phrisiau llety yn y dref yn fonws mawr, gan eich galluogi chi i ddewis llety sy'n bodloni eich cyllideb a chynyddu hygyrchedd i'r lleoliad, nad ellir ei gyflawni mewn nifer o ddinasoedd lle mae costau gwestai fel arfer yn llawer uwch.

Gellir cael mwy o wybodaeth drwy gysylltu â Gwasanaeth Canolfan Groeso Llandudno.

## Lleoliad





### Venue Cymru, Y Promenâd, Penrhyn Crescent, Llandudno, Conwy, LL30 1BB

What 3 Words - ///galloped.litigate.desire

## Sut i gyrraedd

Mae Venue Cymru 4 milltir i ffwrdd o'r A55 ac yn cymryd oddeutu 8 munud gyda char, gan roi mynediad dros y Gogledd Orllewin a thu hwnt trwy'r M62/M56. O Gyffordd 19 yr A55, dilynwch yr arwyddion ar gyfer Llandudno ac ewch ar yr A470 (Ffordd y Cymry Brenhinol), ac yna dilynwch yr arwyddion ffordd brown yn dweud Venue Cymru. Cod Post Venue Cymru, LL30 1BB.

Gweler y map isod ar gyfer y llwybr i gwrt y lleoliad.



01492 879771 venuecymru.co.uk
businessevents@venuecymru.co.uk

venue cymru
LLANDUDNO